

Cynhadledd yr Undeb 2014

Bydd trefniadau'r Gynhadledd ar gyfer y Cylch hwn yn dechrau ar y 15fed o Fehefin, prynhawn Sul, pan fydd tua 22 ohonom yn mynd mewn bws bach i Theatr y Gromlech yn Ysgol y Preseli i weld y cyflwyniad, *Dal dy Dir*, am 5 y prynhawn, ac edrychwn ymlaen at y dechrau hwnnw.

Ar y dydd Llun, wedyn, fe fydd y gynhadledd ei hun yn dechrau ar ôl croeso'r llywydd presennol, y Parchg Eirian Wyn, am 10.00 y bore, a hynny'n cael ei ddilyn gan Addoliad a Myfyrdod Beiblaidd gan y Parchg Olaf Davies (a fydd yn agor hefyd ar y dydd Mawrth am 9 y bore). Yn ystod y dydd Llun clywir Adroddiadau Cyllid a'r Gorfforaeth gan Drysorydd yr Undeb (yr Athro W Howard Evans), Adroddiad Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Mr Glyndwr Prideaux), Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol (Parchg Peter Thomas) ac ar y dydd Mawrth y bydd cyflwyniadau'r Cyfarwyddwr Cenhadaeth (y Parchg Simeon Baker) a BMS (Dr Menna Machreth).


Bydd cyfres o gyflwyniadau ar Gyfathrebu Gwahanol dros y ddau ddiwrnod yn canolbwyntio ar Weinidogaeth ymhlith Dysgwyr, Profiadau'r Wladfa, a Bugeiliaid y Stryd, a hefyd un sesiwn bach ar Weinidogaeth i Eglwysi Bychain, Cynllun "Pathways" (na dwi ddim yn gwybod beth yw hynny chwaith) a'r Cynllun Prentis.

Ar y dydd Mawrth, fe fydd un sesiwn am 11.30 ar drafod cynllunio strwythurau'r dyfodol ar gyfer y Bedyddwyr yng Nghymru: fe fydd amryw ohonoch chi'n cofio trafod rhai o'r syniadau a wyntyllir yn y sesiwn yma mewn cyfarfodydd Gweithgor, yn Nhabernacl Caerfyrddin, ac yn Noddfa, ar ddechrau'r flwyddyn.

O ddiddordeb i'r Cylch, fe fydd y Parchg Owain Llyr Evans yn tradodi Darlith Goffa Lewis Valentine, am 4 ar y dydd Llun, a'i destun fydd, *Trech plufyn na gordd*. Cynhelir cyfarfod cyffredinol y Coleg Gwyn am 6.15 ar y dydd Llun yn festri Bethel Mynachlogddu, ac am 7 yr hwyr ym Methel, fe gynhelir Oedfa'r Llywydd, pan ddaw'r Parchg Eirian Wyn Lewis yn Llywydd yr Undeb ar gyfer y flwyddyn 2014/15.

Daw'r gyfres o gyfarfodydd i ben gydag Oedfa'r Weinidogaeth ar y nos Fawrth, am 6.30, pan y disgwylir i bregethu y Parchg Denzil John, Caerdydd.

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Gorff.**: Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomas@tesco.net



Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Mehefin a Gorffennaf 2014

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

1 Mehefin

Aberduar 10.00 y bore
Noddfa 2.00 y prynhawn

Mrs Dwynwen Teifi
Oedfa gymun unedig i
Noddfa, Caersalem a Bethel
o dan ofal y
Parchg Athro Hugh Matthews

8 Mehefin - Sulgwyn

Aberduar 10.00 y bore
Bethel 10.15 y bore
Seion 1.30 y prynhawn

Mrs Dwynwen Teifi
Cymun

15 Mehefin

Noddfa 9.30 y bore
Aberduar 11.00 y bore

Cymun

22 Mehefin

Aberduar 10.00 y bore
Bethel 10.15 y bore
Brynhafod 1.30 y prynhawn
Seion 3.00 y prynhawn

Doniau'r eglwys

29 Mehefin

Caersalem 10.30 y bore

Oedfa unedig i'r Cylch

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

6 Gorffennaf

Aberduar	10.00 y bore	Mr Stanley Evans
Caersalem	2.00 y prynhawn	Oedfa gymun unedig i Noddfa, Caersalem a Bethel o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan

13 Gorffennaf

Aberduar	10.00 y bore	Parchg Wynn Vittle
Bethel	10.15 y bore	
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

20 Gorffennaf

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Noddfa	amser i'w hysbysu	Oedfa bicnic

27 Gorffennaf: trefniadau i'w hysbysu oherwydd penderfynwyd yn y cyfarfod blynyddol ar gyfer diaconiaid a swyddogion y Cylch y bydden ni'n trefnu taith o'r Cylch ar y diwrnod hwn.

Rhaghysbys 3 Awst

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

Oedfa Radio

Diolch i bob un fu'n fodlon cymryd rhan yn yr oedfa radio a recordiwyd yn ddiweddar : gwrandewch i weld pa leisiau chi'n nabod ar yr 8ed o Fehefin (5.30 y bore a 12.30 y prynhawn rwy'n credu)! Roedd sawl un o'r bobl ifanc a gafodd eu bedyddio yn methu dod am eu bod yng nghanol arholiadau, felly gobeithio fod y cyfan yn mynd yn dda.

Cymanfaoedd Canu

Cynhelir Cymanfa Ganu Rali CFFI Ceredigion yn Brynhafod, nos Sul yr 8ed o Fehefin, ac erbyn hynny bydd tipyn o waith wedi ei wneud ar y festri - diolch i bawb sy wedi bod yn brysur yno. A hefyd yn Aberduar ar yr 22ain o Fehefin, cynhelir Cymanfa Ganu Carnifal y pentre.

... ar frys! ... Te'r Ifanc o galon ar gyfer egbwysi Noddfa, Caersalem a Bethel ... ar dydd Mercher 18ed o Fehefin ... manylion i ddilyn

Llongyfarchiadau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd:

Yn ddiweddar fe fu rhai o'r ardal hon yn llwyddiannus iawn mewn Siarad Cyhoeddus, Celf a Chrefft, a Llefaru, a phobl y Cylch yn hyfforddi ac yn cystadlu, felly llongyfarchiadau i chi i gyd.

Cymanfa Ganu Cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan

Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu eleni ar y 18ed o Fai, yn Salem Caio, pan brofon ni o groeso cynnes aelodau'r eglwys honno. Alwena Evans a'i brawd Alwyn Roberts (Noddfa) oedd wrth y llyw: diolch yn fawr i chi'ch dau am eich llywyddu cysurus, gyda'r oedolion a'r plant. Diolch hefyd i Mrs Ceinwen Evans, hithau mor gartrefol hefyd yn Salem, am ei harweiniad, ac am lwyddo i droi o annog y plant i gyfarwyddo'r oedolion. Diolch hefyd i Elfyn Davies am ei waith wrth yr organ, i David Thomas, Verina Roberts, Elfyn Davies, a Janet Evans am eu gwaith fel swyddogion y pwyllgor, ac i Emlyn Davies, Llanybydder, am arwain y Rihyrstal. Caed trefniant newydd eleni, gydag un oedfa ar y cyd rhwng yr oedolion a'r plant, ac rwy'n siwr byddwch yn cytuno i'r drefn hon fod yn llwyddiannus iawn. Caersalem amdani y flwyddyn nesa!

Oedfa Bicnic

Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal oedfa bicnic ar gyfer Noddfa a phlant yr Ysgol Sul. Y dyddiad sydd mewn golwg yw'r 20fed o Orffennaf, felly gwrandewch am fwy o newyddion.

Oedfa eciwmenaidd

Cynhelir oedfa eciwmenaidd Llanbedr Pont Steffan gydag Eglwys y Tri Hierarch (Uniongred Groegaidd) yn yr adeilad yr ydym yn ei adnabod yn well fel festri Soar, ar y 17eg o Orffennaf am 7 yr hwyr. Croeso i bawb.

Dyddiadau i'r chwiorydd! Oedfa i ddathlu 70 o flynyddoedd o weithgaredd Mudiad y Chwiorydd ar y **3ydd o Orffennaf**.

Ar ddechrau mis Medi, fe fydd cynhadledd y Senana yn y Coleg yn Llanbedr unwaith eto. Ac ar **24 Fedi** fe gynhelir cyrddau blynyddol Mudiad y Chwiorydd - felly dyma ein cyfle i fod yn bresennol cyn bod y cyrddau'n dod i'r Cylch hwn ymhen y flwyddyn. Manylion am bob un i ddilyn, felly gwrandewch am newyddion pellach.